COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD IAU, 6 MEHEFIN 2024 AM 10:00

Yn bresennol

G Chapman – Cadeirydd (aelod lleyg)

| | | | |
|---|---|---|---|
| M L Hughes | R M Granville | N Clarke | R J Smith |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | |
|---|---|
| M J Williams | S J Griffiths |

Aelodau Lleyg - n Bresennol yn Rhithiol

B Olorunnisola

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

A Bagley (aelod lleyg), C Davies a S Easterbrook

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd |
| Simon Roberts | Uwch Ymchwilydd Twyll |

| | |
|---|---|
| David Williams | Archwilio Cymru |
| Samantha Clements | Archwilio Cymru |
| Andrew Wathan | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Joan Davies | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau/ Swyddog Craffu Dros Dro |

Datganiadau o Fuddiant

Dim

## 146. Ethol Cadeirydd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Etholwyd G Chapman yn Gadeirydd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Mehefin 2024 |

## 147. Ethol Is-gadeirydd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Etholwyd A Bagley yn Is-gadeirydd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Mehefin 2024 |

## 148. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 18 Ebrill 2024 fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Mehefin 2024 |

## 149. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd darparu diweddariad i'r Aelodau ar Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br><br>Mynychwyd y cyfarfod gan Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc er mwyn ateb cwestiynau ac ymateb i faterion penodol a godwyd gan Aelodau ac a amlygwyd yn Atodiad A.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr adran Argymhelliad Monitro'r Archwiliad Mewnol lle roedd Aelodau wedi gwneud cais am i benaethiaid gwasanaeth ddarparu diweddariadau ysgrifenedig i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor o ran yr holl faterion a nodir yn Atodiad B a C, gan nodi lle maen nhw arni yn eu cynllun gweithredu a phryd fydd y materion a amlinellir yn cael eu cwblhau os nad yw hynny eisoes wedi digwydd erbyn y dyddiad hwnnw. Nodwyd nad oedd y penaethiaid gwasanaeth eto wedi darparu'r diweddariadau ysgrifenedig y gwnaed cais amdanynt. Mewn ymateb, sicrhaodd y Prif Weithredwr yr Aelodau bod y Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn cymryd y pwyllgor a'i argymhellion o ddifrif. Cafodd y materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf eu codi yng nghyfarfod diweddar o'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ac mae cais wedi'i wneud am i'r penaethiaid gwasanaeth ddarparu'r ymatebion ysgrifenedig hynny.<br>• O ran mater Cerbydau Ysgol, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl ifanc fanylion y gweithredoedd yr ymgymerwyd â hwy, yn arbennig felly gan y tîm yswiriant a'r Gwasanaethau Fflyd, er mwyn cefnogi ysgolion wrth ymateb i'r argymhellion. Darparwyd diweddariad manwl ganddo hefyd ar y grymoedd oedd ar gael i'r awdurdod lleol a Llywodraeth |

| | |
|---|---|
| | Cymru lle roedd ysgolion yn methu â chydymffurfio gyda deddfwriaeth. Mynegodd yr Aelodau eu diolchgarwch i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol am fynychu a darparu ymateb mor fanwl, a gwnaethant gais am i brawf byrfyfyr gael ei wneud er mwyn gweld faint roedd yr ysgolion yn cydymffurfio nawr, ac er mwyn mesur traweffaith yr ymyriad. Dylai'r canlyniadau gael eu hadrodd yn ôl i gyfarfod arall o'r Pwyllgor yn y dyfodol.<br>• Pwysleisiodd y Cadeirydd bod awdurdodi Cerbydau Ysgol wedi ei ddilyn i fyny gan y Pwyllgor oherwydd bod diogelwch y disgyblion yn achos pryder mawr. Fe wnaeth hefyd dderbyn yr ymddiheuriad a gynigiwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol am beidio â bod ar gael i fynychu cyfarfod olaf y Pwyllgor.<br>• Tynnodd Aelod sylw at fater recriwtio aelod lleyg, gan bwysleisio'r angen am annog mwy o fenywod i ymgeisio. Datganodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid bod yr hysbyseb yn fyw ac y byddai'n blaenoriaethu tynnu rhestr fer a'r broses gyfweld cyn gynted â phosib wedi'r dyddiad cau.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Nododd y Pwyllgor y Pwynt Gweithredu gan ddarparu sylwadau arno, fel yr oedd yn briodol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Mehefin 2024 |

**150. Adroddiadau Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Archwilio Cymru**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cynhyrchodd Archwilio Cymru un adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ei ystyried:<br><br>**Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru - (Atodiad A)**<br><br>Darparodd yr adroddiad fanylion y diweddariad chwarterol ar y Rhaglen Waith hyd at ddiwedd Mawrth 2024.<br><br>Darparodd cynrychiolydd o Archwilio Cymru grynodeb o'r gwaith archwilio ariannol, oedd yn cynnwys Archwiliad o ddatganiad cyfrifon y Cyngor 2023-24, archwiliadau sicrwydd cyfyngedig cyfrifon 2023-24 Amlosgfa Llangrallo a Harbwr Porthcawl, ac ardystiad hawliadau grant ac enillion y Cyngor 2022-23 (yn cynnwys y Cymhorthdal Budd-dal Tai, yr Ardrethi Annomestig Cenedlaethol, ac Enillion Pensiwn Athrawon). |

| | |
|---|---|
| | Darparwyd diweddariad ar waith archwilio perfformiad ers y chwarter diwethaf gan ail gynrychiolydd o Archwilio Cymru, gan gynnwys y byddai'r crynodeb archwilio blynyddol ar gyfer 2022-23 yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor ynghyd â'r cynllun archwilio ar gyfer 2024-25.<br><br>O safbwynt 2023-24, mae'r adroddiad gosod amcanion llesiant yn cael ei ddrafftio ac maent ar amser o ran cyhoeddi'r adroddiad hwnnw fel drafft erbyn diwedd mis Mehefin. Nodwyd bod y ffocws yr adolygiad thematig, comisiynu a rheoli cytundebau wedi newid, a bod sgôp hwnnw yn awr yn edrych ar gomisiynu yn unig. Mae'r adroddiad yn codi o'r adolygiad thematig ar gynaliadwyedd ariannol yn cael ei ddrafftio; ac mae'r prosiect lleol,Adolygiad o Drefniadau Gwneud Penderfyniadau er mwyn sefydlu p'un ai a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau gwneud penderfyniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio'i adnoddau, ar waith.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Y mecanwaith, heblaw am y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sydd y ei le i sicrhau bod y Cyngor yn rhoi argymhellion Archwilio Cymru ar waith, a sut mae cydymffurfiaeth yn cael ei ddilyn a'i adrodd amdano yn ôl i'r Pwyllgor.<br>• Yr angen am gynnwys dyddiad lle nodwyd bod adroddiad wedi'i gwblhau.<br>• Y cyfleoeodd sydd ar gael i gynrychiolwyr etholedig a'r Cyngor gyfrannu at adolygu trefniadau llywodraethu Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.<br>• Traweffaith a gwerth gwasanaethau diamod.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Nododd y Pwyllgor Adroddiadau Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Archwilio Cymru yn **Atodiad A**. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Mehefin 2024 |

## 151. Asesiad Blynyddol Busnes Gweithredol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am Adran 151 (s151) Asesiady Swyddog (Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid) o'r Cyngor fel 'Busnes Gweithredol' at bwrpas cynhyrchu Datganiad |

| | |
|---|---|
| | Cyfrifon 2023-24.<br><br>Yn dilyn diwygiadau i'r Safonau Archwilio a ddefnyddir gan archwilwyr allanol y Cyngor i ymgymryd â'u harchwiliadau, mae archwilwyr y Cyngor wedi ceisio sicrwydd bod y Cyngor yn gallu darparu tystiolaeth ei fod wedi cwblhau asesiad 'busnes gweithredol', sy'n sail i baratoi'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol.<br><br>Mae'r adroddiad yn cadarnhau asesiad o'r Cyngor fel busnes gweithredol, fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Gyfrifo Awdurdod Lleol.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Y gorwariant yr adroddwyd arno yn y flwyddyn ariannol bresennol a'r angen i ddefnyddio arian wrth gefn oedd wedi'i glustnodi. Ymatebodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid drwy nodi lle bo angen i dynnu ar arian wrth gefn oedd wedi'i glustnodi, y byddai proses o ailflaenoriaethu, gan ystyried blaenoriaethau'r Cyngor, ond hefyd blaenoriaethau o safbwynt risg.<br>• Y pwysau ar faterion ariannol llywodraeth leol: Bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn wynebu'r un problemau â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru.<br>• Gwerth ychwanegu mwy o wybodaeth am y duedd i ddefnyddio arian oedd eisoes wedi'i glustnodi, a blaenamcan o sut allai pethau esblygu.<br>• Gwerth blaenamcanu manwl gywir ac amserol.<br>• Yr angen am eglurder wrth adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor ynghylch o ble mae arian wedi ei dynnu (p'un ai o gronfeydd arian wrth gefn oedd wedi eu neilltuo a/neu Gronfa'r Cyngor) er mwyn gwneud iawn am y gorwariant. Nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid ei bod yn cynghori'n gryf os oeddem i dynnu ar Gronfa'r Cyngor nad yw ond yn cael ei leihau os nad oedd hynny'n wirioneddol angenrheidiol. Nododd Aelod y byddai cadw'r lleihad yng Nghronfa'r Cyngor i'r isafswm yn helpu i amddiffyn ein safle fel busnes gweithredol.<br>• Cynlluniau'r Cyngor i ehangu ei fframwaith llywodraethu a throsolwg ariannol er mwyn atal gorwariant yn y dyfodol a sicrhau bod blaenamcanu yn fwy manwl yn y dyfodol. Mewn ymateb i hyn, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid bod y Cyngor wastad yn edrych ar ffyrdd o wella a chryfhau dulliau o reoli. Nododd fod y pwysau roedd y Cyngor yn ei wynebu yn gyfangwbl ddigynsail ac roedd wedi ymrwymo i ehangu'r monitro ar ein sefyllfa yn ystod y flwyddyn ariannol, ac y byddai'n cynnwys ymdrechion i sylwi ar amrywiadau yn gynnar iawn fel y gellid cymryd camau gweithredu gyda'r rheolwyr perthnasol cyn gynted â phosibl. Ceisiodd sicrhau'r aelodau ymhellach |

| | |
|---|---|
| | fod Archwilio Cymru a'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol wastad wedi bod yn gadarnhaol iawn ynghylch strwythurau llywodraethu o fewn cyngor Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor ganlyniadau'r asesiad o statws busnes gweithredol y Cyngor at bwrpas paratoi Datganiad Cyfrifon 2023-24. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Mehefin 2024 |

**152. Asesiad Risg Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd darparu diweddariad i'r Aelodau ar Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br><br>Adolygir yr Asesiad Risg Corfforaethol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o fframwaith Asesiad Perfformiad Corfforaethol chwarterol y Cyngor.<br><br>Mae'r Asesiad Risg Corfforaethol wedi ei ystyried a'i adolygu mewn ymgynghoriad gyda'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol.<br><br>Mae pob risg wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r risgiau corfforaethol presennol sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Y ffordd y mae'r sgôr risg amrwd a gweddilliol wedi cael eu gwerthuso a'u cyflwyno o dan yr eitem sy'n gysylltiedig gyda darparu cyllideb gytbwys a chynnal gwasanaethau i mewn i'r tymor canolig.<br>• Y bygythiad parhaus i fusnesau os nad yw'r Cyngor yn gallu caffael a rhoi systemau TGCh mawr ar waith sy'n cefnogi gwasanaethau hanfodol megis system amgen ar gyfer Care Director (WCCIS) a system Capita One ar gyfer addysg. Mewn ymateb i sylwadau gan y Cadeirydd, fe wnaeth y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid ymrwymo i drafod statws risg y cofnod hwn ar yr Asesiad Risg Corfforaethol gyda'r rheolwyr perthnasol. |

| | |
|---|---|
| | • Bod yr Atodiad yn fersiwn print y pecyn Agenda yn rhy fach o ran maint y ffont, ac oherwydd hynny, y byddai'r ddogfen wreiddiol yn cael ei hanfon at yr Aelodau wedi'r cyfarfod.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor yr Asesiad Risg Corfforaethol (**Atodiad A**); a chytunodd i ddiwygio'r risgiau y manylir arnynt ym mharagraff 3.2. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Mehefin 2024 |

## 153. 'Ymholiadau Archwilio i'r Rhai sy'n Gofalu am Lywodraethu a Rheoli' Archwilio Cymru ar gyfer Archwiliad 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Bu i adroddiad ddarparu'r Pwyllgor gyda llythyr 'ymholiadau archwilio i'r rhai sy'n gofalu am lywodraethu a rheoli' Archwilio Cymru sy'n gofyn nifer o gwestiynau mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r Cyngor i'w cwblhau erbyn 30 Mehefin 2024.<br><br>Mae Archwilio Cymru yn ymgymryd ag archwiliad blynyddol Datganiad Cyfrifon y Cyngor. Fel rhan o waith cynllunio'r archwiliad, mae'n ofynnol i'r Archwiliwr Cyffredinol gael sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o unrhyw gamddatgan materol boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad.<br><br>Mae atodiadau 1 i 3 o'r llythyr yn gosod allan nifer o gwestiynau i'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Darparwyd ymatebion i bob un o'r cwestiynau, fel y'i gosodir yn **Atodiad A**.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Yr angen i ddiwygio'r cyfeiriad yn nogfen Archwilio Cymru i 'Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio', yn hytrach na dim ond 'Pwyllgor Archwilio'.<br>• Yr angen am hyfforddiant a briffio ychwanegol er mwyn caniatáu i Aelodau gael y wybodaeth ddiweddaraf ar y datblygiadau yn y maes gweithgaredd hwn.<br><br>PENDERFYNWYD: |

| | |
|---|---|
| | Cytunodd y Pwyllgor i lythyr ymatebion i lythyr 'Ymholiadau Archwilio i rai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli' Archwilio Cymru fel y'i hatodir yn **Atodiad A**. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Mehefin 2024 |

## 154. Adroddiad Archwiliad Mewnol Blynyddol 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd darparu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyda Barn Pennaeth Archwiliad Mewnol Blynyddol ar amgylchedd rheoli'r Cyngor mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ac i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am waith a pherfformiad yr Archwiliad Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24.<br><br>Darparwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am waith a pherfformiad yr Archwiliad Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 gan yr adroddiad. Bod gwybodaeth yn cael ei ddarparu er mwyn cydymffurfio gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.<br><br>Roedd Atodiad A yn cynnwys Adroddiad yr Archwiliad Mewnol Blynyddol 2023-24 oedd yn rhoi manylion am berfformiad, barn ac argymhellion yr Archwiliad Mewnol yn ystod y flwyddyn sy'n cynorthwyo i ffurfio Barn Flynyddol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol am amgylchedd rheoli cyffredinol y Cyngor.<br><br>O'r gwaith yr ymgymerwyd ag o yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, ac o ystyried ffynonellau eraill o sicrwydd, mae barn flynyddol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol ar addasrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth ar gyfer 2023-24 yn rhoi Sicrwydd Rhesymol.<br><br>Mae'r archwiliadau hynny wnaeth ddarparu barn archwiliad yn ystod y flwyddyn yn cael eu rhestru yn Atodiad 1, gyda'r sefyllfa fanwl yn erbyn y cynllun archwilio yn cael ei gynnwys yn Atodiad 2 ac Atodiad 3 yw'r argymhelliad datganiad sefyllfa monitro.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Adolygiadau'r archwiliad oedd yn adnabod problemau rheolaeth oedd yn golygu mai dim ond *Sicrwydd Cyfyngedig* oedd posib ei ddarparu, a'r mater ynghylch p'un ai a ddylai Aelodau dderbyn mwy o fanylion o dan yr amgylchiadau yma. Yn benodol, tynnwyd sylw at y ddau ganlynol gan |

| | |
|---|---|
| | Aelod Lleyg:<br><br>▪ Adolygu Dyfarniad a Gwerthusiad Tendr Caffael, lle roedd y ffocws ar daliadau cyflenwr nad oedd unrhyw gofnod cysylltiedig ar ei gyfer ar gofrestr cytundebau'r Cyngor; ac<br>▪ Adolygiad Ailgylchu a Rheoli Gwastraff, oedd yn nodi na chynhaliwyd unrhyw gyfrifiad annibynnol neu gysoni fel rhan o'r broses adolygu cyn i anfonebau cost amrywiol misol contractwyr gael eu talu. Arweiniodd hyn at gamgymeriadau ariannol ac i incwm beidio â chael ei adfer neu ei hawlio gan yr Awdurdod Lleol.<br><br>Mewn ymateb, pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS) bod adolygiadau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer rheolwyr a chyfarwyddwyr gwasanaeth o safbwynt mewnol, a dyma pam y darparwyd crynodeb ar gyfer y Pwyllgor. Y peth allweddol oedd sicrhau bod y broses yn ei lle er mwyn mynd i'r afael â gwendidau oedd wedi eu hadnabod. Pe bai Aelodau yn bryderus ynghylch adolygiad penodol, yna byddai'n bosib darparu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i'r Pwyllgor.<br>• Y metrigau neu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddiwyd i fesur traweffaith argymhellion. Mewn ymateb, eglurodd Pennaeth RIAS mai eu rôl oedd adnabod lle roedd gwendid neu gryfder mewn amgylchedd rheoli penodol. Fe wnaethant adnabod risg i'r gwendid hwnnw oherwydd ei fod yn achosi i'r awdurdod fod yn agored i risg os oedd yna fwlch neu wendid yn y rheoli, ac aethant ati i benderfynu p'un ai oedd hynny yn uchel, canolig neu isel. Roedd hynny'n oddrychol ond dyna fel yr oedd pethau yn achos pob archwiliad o fewn y sector cyhoeddus, ledled y DU.<br><br>Aeth y Cadeirydd ati i ddiolch ac i longyfarch Pennaeth RIAS a'i staff am yr adroddiad a'r gwaith yr ymgymerwyd ag o yn ystod y flwyddyn. Pwysleisiodd bwysigrwydd adolygiadau'r archwiliad oedd yn adnabod problemau rheolaeth, oedd yn golygu mai dim ond *Sicrwydd Cyfyngedig* oedd posib ei ddarparu, a'r angen am i'r ymatebion gan reolwyr a chyfarwyddwyr gwasanaeth gael eu dwyn gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad yr Archwiliad Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 a'i nodi, gan gynnwys Barn Flynyddol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol ar addasrwydd ac effeithlonrwydd fframwaith llywodraethu'r Cyngor, rheoli risg a rheolaeth fewnol. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Mehefin 2024 |

## 155. Y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun yn Seiliedig ar Risg 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd darparu aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyda'r Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol a Chynllun yn Seiliedig ar Risg ar gyfer 2024-25 i'w cymeradwyo.<br><br>Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus mae'n rhaid i Bennaeth yr Archwiliad Mewnol sefydlu cynlluniau yn seiliedig ar risg er mwyn penderfynu beth yw blaenoriaethau gweithgaredd yr archwiliad mewnol, sy'n gyson gyda nodau'r sefydliad. Mae'r cynllun archwilio yn cwmpasu amgylchedd rheolaeth cyffredinol y Cyngor, gan gynnwys risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol cyn belled ag sy'n ymarferol bosib.<br><br>Mae rhoi ystyriaeth i Strategaeth Archwilio a Chynllunio yn Seiliedig ar Risg Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Atodwyd y Strategaeth Archwilio Fewnol arfaethedig ar gyfer 2024-25 yn Atodiad A ac atodwyd y Cynllun yn Seiliedig ar Risg Blynyddol arfaethedig ar gyfer 2024-25 yn Atodiad B.<br><br>Roedd y Strategaeth yn dangos sut y byddai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu a'i ddatblygu yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Byddai'r Strategaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n flynyddol mewn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid, sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Bwrdd Rheoli Corfforaethol, Archwilwyr Allanol ac Uwch Reolwyr.<br><br>Roedd y cynllun yn darparu'r Pwyllgor gyda throsolwg o'r gwaith oedd i'w ymgymryd ag o a fyddai'n cyflawni'n ddigonol er mwyn gallu darparu barn ar ddiwedd 2024-25.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd yr archwiliadau blaenoriaeth uchel.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth ac yna cymeradwyo drafft y Strategaeth Archwilio Mewnol **(Atodiad A**) a'r |

| | |
|---|---|
| | drafft o'r Cynllun Archwilio yn Seiliedig ar Risg Blynyddol ar gyfer 2024-25 **(Atodiad B)**. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Mehefin 2024 |

## 156. Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd cyflwyno Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gyda Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2024-25 i'w chymeradwyo.<br><br>Mae Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS) yn sefydlu safle gweithgaredd yr archwiliad mewnol o fewn bob Cyngor ynghyd â llwybrau adrodd. Dogfen ffurfiol ydyw sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb gweithgaredd archwiliad mewnol ar hyd a lled Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Bro Morgannwg.<br><br>Cafodd y Siarter ei hadolygu'n llawn a'i diwygio ar gyfer 2020-21 er mwyn bod yn gyson gyda nodau'r Gwasanaeth a Rennir, hynny yw, i gael gwared ag unrhyw ddyblygu ac i roi arfer gorau ar waith.<br><br>Mae'r Siarter hefyd yn gosod allan awdurdodi mynediad i gofnodion, personél ac eiddo corfforol sy'n berthnasol i berfformiad gwaith archwilio ac sy'n diffinio sgôp gweithgaredd archwiliadau mewnol.<br><br>Mae Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2024-25 wedi'i hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i adelwyrchu gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'i bod yn parhau i fod yn berthnasol i'r holl bartneriaid sydd ynghlwm wrth Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.<br><br>Mae'r Siarter wedi cael ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn awr yn fodel gweithredu 3 phartner. Cynhwysir cyfeiriad at y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang ym mharagraff 2.14, a gwneir cyfeiriad at y Polisi Gwrth-Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru yn dilyn argymhelliad a wnaed yn ystod Asesiad Allanol RIAS.<br><br>Mae paragraff 4.11 o'r Siarter sy'n berthnasol i'r Asesiad Allanol hefyd wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu bod hyn wedi'i gwblhau'n llwyddiannus ac wedi ei adrodd amdano wrth holl Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio partneriaid yn ystod 2023. |

| | |
|---|---|
| | Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau y mater canlynol:<br><br>• Pwysigrwydd bod aelodau etholedig a lleyg ynghyd â RIAS o fod â pherthynas weithio gadarn, a ph'un ai, ar wahân i'r cyfarfodydd ffurfiol, unrhyw gyfleoedd eraill (briffio, hyfforddiant, diwrnod i ffwrdd, mynychu digwyddiadau allanol) i gwrdd â'i gilydd ac i drafod unrhyw bryderon. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai Pennaeth RIAS archwilio yr hyn ellid ei gefnogi gan ei dîm, gan gynnwys digwyddiad hyfforddiant blynyddol.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth a chymeradwyo Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2024-25 fel y'i hatodir yn Atodiad A o'r adroddiad a gwnaed cais ganddynt am i sesiwn hyfforddiant gael ei drefnu ar gyfer Aelodau ac Aelodau Lleyg er mwyn archwilio canlyniadau adolygiadau ac arfer da. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Mehefin 2024 |

**157. Blaenraglen Waith 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd ceisio sicrhau cymeradwyaeth i'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 a ddiweddarwyd.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• P'un ai a fyddai'n bosib edrych ar faes, megis rheoli'r trysorlys, er enghraifft, mewn mwy o fanylder ac er mwyn dyfnhau dealltwriaeth yr Aelodau drwy hyfforddiant ychwanegol. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried niferoedd yr Aelodau newydd ar y Pwyllgor.<br>• Yr angen i archwilio p'un ai a ellid ychwanegu adroddiad ar faterion TGCh at y Flaenraglen Waith.<br>• P'un ai a oedd angen gwneud rhywbeth er mwyn darparu sicrwydd bod gennym broses gadarn yn ei lle o safbwynt rheoli'r rhaglen gyfalaf.<br><br>PENDERFYNWYD: |

| | |
|---|---|
| | Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth a chymeradwyo'r Flaenraglen Waith oedd wedi'i diweddaru ar gyfer 2024-25, gan bwysleisio'r angen am ymatebion gan reolwyr gwasanaeth mewn ymateb i'r adolygiadau archwilio oedd yn adnabod problemau rheoli oedd yn golygu mai dim ond *Sicrwydd Cyfyngedig* ellid ei ddarparu gael eu dwyn gerbron cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Mehefin 2024 |

**158. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Mehefin 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm.